



Bro Dinbych

Dydd Sul yr 22ain o Fawrth (Pedwerydd Sul y Grawys)

Darlleniadau

Salm 23

Mathew 6:1-18

Neges

Dros y mis diwethaf rydyn ni wedi bod yn darllen y Bregeth ar y Mynydd yn ein gwasanaethau ni ar y Sul. Yn ystod y cyfnod newydd yma ym mywyd yr eglwys, mae hyd yn oed yn fwy pwysig ein bod ni yn troi at Iesu, a gwrando'n eiddgar ar yr hyn sydd ganddo i ddweud wrthym ni. Felly byddwn ni'n parhau i fynd trwy'r Bregeth ar y Mynydd wrth arwain at y Pasg, gan weddio bydd geiriau'r emyn yn wir yn ein profiad ni: 'hyfryd eiriau'r Iesu – bywyd ynddynt sydd'.

Beth mae Iesu'n ei ddysgu yma? Mae geiriau ein darlleniad ni heddiw yn dod â ni at hanfod Cristnogaeth. Mae'n dangos i ni beth yw calon y cwbl i gyd - perthynas glos gyda Duw fel ein Tad nefol trwy Iesu.

Mae 'na air digon brawychus yn ymddangos yn yr adran hon – y gair 'rhagrithiwr'. Yn ein darlleniad, mae Iesu'n cymharu dau fath o berthynas â Duw. Mae'r cyntaf yn berthynas gwbl wag. Mae 'na bobl, medd Iesu, sy'n byw i fodloni safonau pobl eraill. Ond crefydd y 'grand gesture' ydy eu crefydd nhw. Mae'n nhw'n rhoi elusennau er mwyn cael eu canmol, yn gweddio'n uchel mewn llefydd cyhoeddus er mwyn cael eu gweld, ac yn peidio â bwyta am gyfnod penodol er mwyn i bobl wybod mor dduwiol ydyn nhw. Yr unig nod iddyn nhw yw cyrraedd rhyw safon o grefydda sy'n eu bodloni nhw, neu'n bodloni pobl o'u cwmpas nhw.

Ond nid dyna beth mae'n ei olygu i fy nilyn i, meddai Iesu. Drosodd a throsodd yn y darlleniad hwn mae Iesu'n cyfeirio at Dduw fel 'Tad nefol' i'w ddisgyblion. Mae Iesu'n sôn am berthynas â Duw fel Tad sy'n berthynas glos, gynnes. Mae'n berthynas sy'n llenwi bywyd rhywun â gobaith, sicrwydd a llawenydd, a hynny hyd yn oed yn yr adegau mwyaf ansicr. Yn ôl y Testament Newydd, dyma

mae'n ei olygu i fyw bywyd llawn – byw mewn perthynas gyda Duw ein Crëwr, gan ddilyn ei batrwm ar ein cyfer.

Sut mae profi'r berthynas yma â Duw? Mae'r Testament Newydd am i ni wybod mai trwy Iesu y gallwn ni brofi hyn. Daeth o i'r byd er mwyn i ni gael bywyd, a hynny trwy ei farwolaeth trosom ni. Trwy hynny mae pawb sy'n trystio ynddo yn dod i berthyn iddo, a dod yn 'blant i Dduw', a'n mabwysiadu i deulu Duw.

Gweddi

Diolch i ti, Dad nefol, am anfon Iesu i'n byd ni. Diolch i ti ei anfon i ddod â ni i berthynas newydd gyda ti trwyddo. Yn ystod yr amser hwn, rydyn ni'n gofyn byddai hynny yn rhoi cysur ym mhob gofid ac ansicrwydd. Rho i ni olwg newydd ar ryfeddod dy gariad atom yn Iesu.

Gofynnwn am faddeuant am yr adegau hynny pan oedd moliant ar ein gwefusau ond pellter yn ein calonnau rhyngom ni a thi. Adnewyddda ni trwy dy Ysbryd Glân, a chryfha ni i dy ddilyn di.

Gweddiwn dros holl bobl ein byd. Feddyg da, gweddiwn dros bawb sydd mewn angen a phawb sy'n wynebu gofid.

Gweddiwn dros holl staff ein hysbytai. Diolch i ti am bob dawn sydd wedi ei chysegro i helpu eraill. Rho nerth iddyn nhw i wneud eu gwaith, a bydd yn nerth a chymorth iddynt.

Amen.

Emyn – 330